Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr

Ionawr
2021

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n fanwl-gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar y deunydd hwn a rhaid cyfeirio at deitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd trydydd parti, mae'n rhaid ichi gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gael copi o'r ddogfen mewn fformat arall (er enghraifft, mewn teip mwy neu mewn iaith wahanol).

© Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol Ionawr 2021

Cynnwys

Mwy amdanom ni 5
Pwy ydym ni 5
Beth ydym ni'n wneud 5
Cyflwyniad 6
Cyd-destun 6
Pwrpas y safonau hyn 7
Achrediad 7
Yr asesiad cofrestru 7
Trefn y safonau 8
Rhan 1: Deilliannau dysgu 9
Disgrifio ac asesu deilliannau 9
Lefel astudio 10
Meysydd astudio 10
Maes: Gofal a chydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn 12
Maes: Arfer proffesiynol 13
Maes: Arweinyddiaeth a rheolaeth 17
Maes: addysg ac ymchwil 18
Rhan 2: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr 19
Gradd MPharm 19
Blwyddyn hyfforddiant sylfaen 28
Geirfa 37
Cyfeiriadau 40
Deddfwriaeth a safonau 40
Canllawiau 40
Sefydliadau defnyddiol 41
Atodiad 1: Gofynion ar gyfer addysg gychwynnol a hyfforddiant fferyllwyr 42

Mwy amdanom ni

Pwy ydym ni

Rydym yn rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllfeydd a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Gweithiwn i sicrhau a gwella safonau gofal i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllfeydd.

Beth ydym ni'n wneud

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddynt y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan yn defnyddio gwasanaethau fferyllfeydd.

Gosodwn safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol fferyllfeydd a fferyllfeydd ar gyfer cael bod ac aros ar ein cofrestr.

Gofynnwn i weithwyr proffesiynol fferyllfeydd a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyflawni ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydym yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd mewn fferylliaeth os oes pryderon am weithiwr proffesiynol fferyllfa neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Trwy ein gwaith rydym yn helpu hyrwyddo proffesiynoldeb, cefnogi gwelliannau parhaus a sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

Cyflwyniad

Mae **fferyllwyr**, a hwythau'n arbenigwyr mewn meddyginiaethau, yn chwarae rôl allweddol yn darparu gofal a helpu pobl i gynnal a gwella eu hiechyd, diogelwch a llesiant.

Mae gan gleifion a'r cyhoedd yr hawl i ddisgwyl gofal diogel ac effeithiol gan fferyllwyr. Credwn mai agweddau ac ymddygiadau fferyllwyr yn eu gwaith beunyddiol sy'n gwneud y cyfraniadau mwyaf arwyddocaol i ansawdd gofal, ac mae diogelwch yn rhan hollbwysig o hynny.

Mae'r safonau hyn yn cyflwyno'r wybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth ac ymddygiadau proffesiynol y mae'n rhaid i fyfyriwr/hyfforddai fferylliaeth eu harddangos i basio eu haddysg a'u hyfforddiant cychwynnol ac i ymuno â'r gofrestr broffesiynol. Hefyd, mae'r safonau hyn yn cyflwyno ein gofynion ar gyfer sefydliadau sy'n darparu addysg a hyfforddiant cychwynnol.

Rydym wedi datblygu'r safonau hyn er mwyn cynhyrchu fferyllwyr addasadwy a fydd yn:

- **hyderus** am ac yn **alluog** i weithio mewn timau aml-broffesiynol ar draws nifer o leoliadau gofal iechyd gwahanol i ddiwallu anghenion cleifion sy'n amrywiol a newidiol

ymrwymo i ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn[1], yn bersonol a thrwy ymgynghoriadau o bell. Byddant yn gofalu y gwneir y defnydd gorau posib o feddyginiaethau sy'n ymgorffori diogelwch ac effeithiolrwydd ynghyd â **thosturi** ac **empathi**, a

- **rhagnodwyr hyfedr** y gellir defnyddio eu sgiliau i gydweithio gyda a chefnogi'r systemau gofal iechyd ehangach a chymhleth ar draws gwledydd Prydain a Gogledd Iwerddon.

O fewn y safonau hyn ceir y safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol fferyllfeydd, sef y safonau proffesiynol y bydd disgwyl i hyfforddeion fferylliaeth eu dilyn unwaith y maent yn ymuno â'r gofrestr.

Cyd-destun

Cyhoeddwyd y safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr ddiwethaf ym mis Mai 2011. Roedd y safonau hyn yn cwmpasu pedair blynedd gradd MPharm – cafwyd deilliannau ar wahân ar gyfer y flwyddyn hyfforddi cyn-cofrestru 52-wythnos. Fodd bynnag, roedd y safonau'n disgrifio sut y gallai fod modd cyfuno astudiaeth academaidd a hyfforddiant cyn-cofrestru yn y dyfodol.

Ers cyhoeddi'r safonau, gwelwyd symud ar draws gwledydd Prydain tuag at iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Cafwyd symud hefyd tuag at ddarparu gofal cleifion yn y lleoliad iawn ar yr adeg iawn.

Hefyd, po hiraf y mae pobl yn byw, yn aml mae ganddynt gyflyrau hirdymor niferus sy'n gorfod

[1] Mae'r safonau'n cynnwys y term 'gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' a chyfeiriant bob tro at 'unigolyn' (neu 'unigolion'). Ystyr hynny yw'r 'unigolyn sy'n derbyn gofal'. Gellir defnyddio'r term hefyd i gyfeirio at ofalwyr neu gynrychiolwyr cleifion, gan ddibynnu ar y sefyllfa.

cael eu rheoli. Bydd gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ran i'w chwarae yn gwneud yn siwr fod pobl yn cadw'n iach neu eu bod yn cael gofal os nad yw hiechyd yn dda.

Gwelsom hefyd gyhoeddi strategaethau gofal iechyd uchelgeisiol yng ngwledydd Prydain a Gogledd Iwerddon. Mae pob un ohonynt yn cyfeirio at y rôl y gall fferyllwyr a fferyllfeydd ei chyflawni wrth greu'r newid hwn, a'r sgiliau fydd eu hangen arnynt i wneud hyn – gan gynnwys rhagnodi.

Yn olaf, amlygodd pandemig bydeang COVID-19 pam roedd y newidiadau hyn mor bwysig a pham roedd angen eu gwneud yn gyflym. Mae angen inni ofalu y bydd gan fferyllwyr y dyfodol y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i chwarae mwy o ran yn darparu gofal.

O'r herwydd, rydym wedi creu'r casgliad hwn o safonau. Yn ystod y pum mlynedd, byddant yn datblygu fferyllwyr a chanddynt y sgiliau a phriodweddau angenrheidiol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ynghanol eu cymunedau. Y tu hwnt i hynny, bydd y profiad dysgu estynedig hwn yn cynnal fferyllwyr wrth iddynt gychwyn ar eu haddysg ôl-gofrestru, gydol oes.

Pwrpas y safonau hyn

Mae'r safonau hyn yn cyflwyno nifer o newidiadau pwysig i sicrhau bod fferyllwyr yn cael eu harfogi ar gyfer eu rolau i'r dyfodol.

Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- cyflwyno **casgliad newydd o ddeilliannau dysgu sy'n cwmpasu pum mlynedd lawn** o addysg a hyfforddiant, all gysylltu gyda'u datblygiad parhaus ar ôl cofrestru
- ymgorffori'r sgiliau, gwybodaeth a phriodweddau ar gyfer **rhagnodi**, er mwyn galluogi fferyllwyr i ragnodi'n annibynnol unwaith y maent wedi cofrestru
- pwysleisio'r **defnydd o wyddoniaeth mewn arfer clinigol** a chynnwys mwy o ffocws ar y sgiliau allweddol sydd eu hangen ar gyfer rolau ar hyn o bryd ac i'r dyfodol – gan gynnwys barn broffesiynol, rheoli risg a sgiliau diagnostig ac ymgynghori
- gwneud pumed flwyddyn addysg a hyfforddiant cychwynnol yn **flwyddyn hyfforddiant sylfaen** a **chryfhau cefnogaeth oruchwyliol,** a **chydweithio** rhwng sefydliadau addysg uwch, cyrff addysg statudol a chyflogwyr
- rhoi **mwy o bwyslais ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethu a delio ag anghydraddoldebau iechyd

Achrediad

Mae ein gofynion achredu ar gyfer rhaglenni addysg a hyfforddiant yn seiliedig ar y safonau a'r deilliannau dysgu yn y ddogfen hon. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer eu cofrestru a'u hanodi, rhaid i raddau Meistr mewn Fferylliaeth (MPharm) a rhaglenni blwyddyn hyfforddiant sylfaen gael eu cymeradwyo gan y CFfC.

Yr asesiad cofrestru

Mae'r fframwaith ar gyfer asesiad cofrestru y CFfC yn seiliedig ar y deilliannau dysgu yn y ddogfen hon.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am y ffordd yr achredwn raglenni addysg a hyfforddiant ac am ein hasesiad cofrestru, **trowch at adran addysg prif wefan y CFfC**.

Trefn y safonau

Mae'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr mewn dwy ran.

Rhan 1: Deilliannau dysgu – mae'r rhain yn disgrifio beth mae'n rhaid i fyfyriwr/hyfforddai fferylliaeth allu eu harddangos wrth gwblhau eu haddysg a hyfforddiant cychwynnol yn llwyddiannus. Cyflwynir y deilliannau dysgu mewn pedwar maes:

- gofal a chydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- arfer proffesiynol
- arweinyddiaeth a rheolaeth
- addysg ac ymchwil

Rhan 2: Safonau ar gyfer yr holl sefydliadau perthnasol – mae'r rhain yn disgrifio'r gofynion ar gyfer unrhyw un sy'n darparu addysg a hyfforddiant cychwynnol.

Rhennir y safonau ar gyfer darparwyr yn ddwy adran, ac maent yn cyflwyno'r gofynion ar gyfer:

- gradd MPharm
- blwyddyn hyfforddiant sylfaen

Rhaid i'r holl elfennau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol gael eu darparu **ar y cyd** gan bawb perthnasol.

Disgrifir y pedwar llwybr ar gyfer cofrestru'n fferyllydd yn Atodiad 1.

Rhan 1: Deilliannau dysgu

Safon: Wedi cwblhau eu haddysg a hyfforddiant yn llwyddiannus, bydd y myfyriwr/hyfforddai fferylliaeth wedi cyflawni'r deilliannau dysgu yn y safonau hyn i'r lefel o gymhwysedd a ddisgwylir.

Disgrifio ac asesu deilliannau

Mae'r lefelau deilliant yn y safon hwn yn seiliedig ar hierarchaeth gymhwysedd ac asesu cydnabyddedig a elwir yn 'driongl Miller':

Ffigur 1: Triongl Miller

Gan fod yr hyn sy'n cael ei asesu ar bob un o'r pedair lefel yn wahanol, mae'r dulliau asesu sydd eu hangen yn wahanol hefyd – er y bydd peth gorgyffwrdd.

Lefel 1 – Gwybod

Mae ganddynt wybodaeth y gellir ei defnyddio yn y dyfodol i ddangos cymhwysedd. Gall asesiadau gynnwys traethodau, arholiadau llafar ac arholiadau cwestiynau aml-ddewis.

Lefel 2 – Gwybod sut

Maent yn gwybod sut i ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau. Gall asesiadau gynnwys traethodau, arholiadau llafar, arholiadau cwestiynau aml-ddewis a llyfrau labordy.

Lefel 3 – Dangos sut

Maent yn dangos y gallant berfformio mewn amgylchedd efelychol neu mewn sefyllfa go iawn. Gall asesiadau gynnwys arholiadau clinigol strwythuredig gwrthrychol ac asesiadau wedi'u harsylwi eraill; asesiadau efelychol o gleifion; cynllunio, cynnal ac adrodd ar arbrawf; profion cyflenwi a chofnodi hanes claf.

Lefel 4 – Gwneud

Gallant weithredu'n annibynnol a chyson mewn sefyllfa gymhleth ond benodedig. Ceir tystiolaeth ar gyfer y lefel hon fod myfyriwr fferylliaeth yn arddangos y deilliannau dysgu mewn sefyllfa gymhleth, gyfarwydd neu feunyddiol, dro ar ôl tro ac yn ddibynadwy. Gall asesiadau gynnwys arholiadau clinigol strwythuredig gwrthrychol neu asesiadau wedi'u harsylwi eraill.

Disgwyliadau ar gyfer lefel y deilliannau dysgu

Bydd sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymddygiadau proffesiynol myfyriwr/hyfforddai fferylliaeth yn datblygu trwy gydol eu haddysg a hyfforddiant cychwynnol. Wrth iddynt fynd drwy eu gradd MPharm bydd disgwyl iddynt arddangos y deilliannau dysgu mewn mwy o ddyfnder, ehangder a chymhlethdod. Bydd y flwyddyn hyfforddiant sylfaen hefyd yn rhoi myfyriwr/hyfforddai fferylliaeth mewn sefyllfaoedd ac amgylcheddau newydd. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd iddynt adeiladu ar eu gwybodaeth a'u sgiliau a'u harddangos gyda chleifion mewn lleoliadau clinigol.

Bydd lefel 'Gwneud', yn nhriongl Miller' yn berthnasol i flwyddyn 4 a blwyddyn 5. Bydd 'Gwneud' ar gyfer blwyddyn 4 ar gyfer y cynnwys academaidd a bydd 'Gwneud' ar gyfer blwyddyn 5 ar gyfer y cyd-destun arfer.

Lefel astudio

Y lefel astudio ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol yw lefel gradd meistr, fel y'i diffinnir yn fframweithiau cymwysterau cenedlaethol y DG.

Meysydd astudio

Cyflwynir y deilliannau dysgu mewn pedwar maes:

- gofal a chydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- arfer proffesiynol
- arweinyddiaeth a rheolaeth
- addysg ac ymchwil

Mae'r meysydd a'r deilliannau dysgu mor bwysig â'i gilydd. Er mwyn eu cyflawni, bydd cwricwla, strategaethau addysgu a dysgu a rhaglenni a chynlluniau hyfforddiant er mwyn cyflawni'r deilliannau dysgu yn:

- cymhwyso'r wyddoniaeth sy'n sail i fferylliaeth trwy gydol yr holl ddysgu
- canolbwyntio ar rôl y fferyllydd fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol – gan ddefnyddio eu harbenigedd gynhwysfawr o feddyginiaethau, ac adeiladu ar eu seiliau cadarn mewn gwyddoniaeth – er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- darparu dysgu trwy brofiad a dysgu rhwng y proffesiynau, gyda myfyrwyr o broffesiynau iechyd a gofal eraill, a darparu profiad mewn lleoliadau fferyllol gwahanol
- darparu cyfleoedd i ymgysylltu â phobl a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol
- adeiladu'r angen am ddiogelwch cleifion a'r cyhoedd ymhob agwedd o'r gwaith o gynllunio a darparu addysg a hyfforddiant cychwynnol
- darparu dysgu er mwyn amlygu'r sgiliau a'r priodweddau sydd ynghlwm wrth fod yn rhagnodydd. Caiff y rhain eu plethu trwy'r bedair blynedd gyntaf, gan gryfhau gwybodaeth y myfyriwr a'u paratoi ar gyfer arfer
- darparu cyfnod o ddysgu wrth weithio yn ymwneud yn benodol â rhagnodi – yn ystod y flwyddyn hyfforddiant sylfaen – am o leiaf

90 awr o arfer dan oruchwyliaeth. Bydd hyn yn atgyfnerthu dysgu'r myfyrwyr ac yn caniatáu iddynt gyflawni anodiad rhagnodi annibynnol unwaith y maent wedi cwblhau eu blwyddyn hyfforddiant sylfaen, wedi pasio'r asesiad cofrestru ac wedi cofrestru gyda'r CFfC. Mae hyn yn gydnaws â'r safonau rhagnodi annibynnol ar gyfer fferyllwyr cofrestredig.

Rhagnodi

Mae'r sgiliau a phriodweddau sydd eu hangen ar ragnodydd yn rhan o'r deilliannau dysgu ymhob un o'r pedwar maes[2].

Er enghraifft, mae deilliant dysgu 28 'Arddangos sgiliau diagnostig effeithiol i benderfynu ar y camau mwyaf priodol ar gyfer yr unigolyn' yn berthnasol i arfer beunyddiol fferyllwyr a phan maent yn rhagnodi.

Yn ystod y flwyddyn hyfforddiant sylfaen, bydd disgwyl i hyfforddeion fferylliaeth arddangos y deilliannau dysgu sy'n ymwneud yn benodol ag arfer rhagnodi. Mae hyn yn arbennig o wir am y cyfnod o ddysgu wrth weithio yn gysylltiedig â rhagnodi. Bydd disgwyl hefyd iddynt adeiladu ar eu gwybodaeth a'u sgiliau fel y gallant arddangos y deilliannau canolbwyntio ar ragnodi ar lefel gymhwysedd uwch.

Gwybodaeth wyddonol

Dywed deilliant dysgu 21 fod disgwyl i hyfforddeion fferylliaeth, wedi iddynt gofrestru, gymhwyso'r wyddoniaeth sy'n sail i fferylliaeth yn eu holl weithgareddau proffesiynol.

Rydym yn ystyried y wyddoniaeth sy'n sail i fferylliaeth gan gynnwys:

- y gwyddorau cemegol, biolegol, ffisegol a mathemategol sylfaenol perthnasol (gan gynnwys ystadegol) er mwyn caniatáu i fferyllwyr ddefnyddio'r corff gwybodaeth hwn i adeiladu eu dealltwriaeth o weithgareddau, systemau ac arferion fferyllol
- gwyddorau ychwanegol anatomeg, ffisioleg a ffarmacoleg i alluogi fferyllwyr i ddeall sut mae'r corff yn gweithio; a'r mecanweithiau sy'n galluogi cyffuriau i ryngweithio ag ef, a'u dosbarthiad a'u metaboledd, a'r mecanweithiau sy'n gyfrifol am y risgiau sydd ynghlwm wrth eu defnyddio
- y wyddoniaeth sy'n sail i gynllunio, synthesis, ffurfio, gweinyddu a rhagnodi cyffuriau, meddyginiaethau a dyfeisiau
- gwyddor epidemioleg – er mwyn caniatáu i fferyllwyr ddeall ei rôl o ran atal salwch a rheoli cleifion y mae clefyd wedi datblygu ynddynt yn barod
- dealltwriaeth o genomeg a sut mae'n cael ei gymhwyso wrth ddatblygu cyffuriau yn ogystal ag wrth ofalu am gleifion
- y gwyddorau cymdeithasol perthnasol sy'n ymwneud â datblygu a gweinyddu meddyginiaethau, gan gynnwys gwerthfawrogiad o agweddau seicolegol, ymddygiadol ac economaidd defnyddio meddyginiaethau

[2] Mae'r deilliannau dysgu yn rhoi ystyriaeth i ***Prescribing Competency Framework*** y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)

Maes: Gofal a chydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Os ydynt yn mynd i basio, rhaid i fyfyrwyr/hyfforddeion allu arddangos y canlynol ar ddiwedd pob elfen o'u haddysg a hyfforddiant cychwynnol:

Tabl 1: Deilliannau dysgu ar gyfer gofal a chydweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Deilliant dysgu	Gradd MPharm	Blwyddyn hyfforddiant sylfaen
1. Arddangos empathi a chadw'r person ynghanol eu hagwedd at ofal trwy gydol yr amser	**Gwneud**	**Gwneud**
2. Gweithio mewn partneriaeth â phobl i'w cefnogi a'u grymuso wrth gymryd penderfyniadau ar y cyd am eu hiechyd a llesiant	**Dangos sut**	**Gwneud**
3. Arddangos cyfathrebu effeithiol trwy gydol yr amser ac addasu eu ffordd o weithio a'u harddull gyfathrebu yn ôl anghenion y person	**Gwneud**	**Gwneud**
4. Deall yr amrywiaeth o leoliadau ac addasu eu cyfathrebu yn unol â hynny	**Dangos sut**	**Gwneud**
5. Mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi pobl i wneud defnydd diogel ac effeithiol o'u meddyginiaethau a'u cyffuriau	**Dangos sut**	**Gwneud**
6. Trin pobl yn gyfartal, gydag urddas a pharch, a chyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol eu hunain o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, tra'n parchu amrywiaeth a gwahaniaethau diwylliannol	**Gwneud**	**Gwneud**
7. Cael cydsyniad gwybodus cyn darparu gwasanaethau gofal a fferyllol	**Gwneud**	**Gwneud**
8. Asesu ac ymateb i risgiau iechyd penodol y person, gan roi ystyriaeth i nodweddion gwarchodedig a chefndir unigolion	**Dangos sut**	**Gwneud**
9. Cymryd cyfrifoldeb am ofalu nad yw gwerthoedd a chredoau personol yn effeithio ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	**Gwneud**	**Gwneud**
10. Arddangos sgiliau ymgynghori effeithiol, ac mewn partneriaeth â'r person, penderfynu ar y camau mwyaf priodol i'w cymryd	**Gwneud**	**Gwneud**
11. Rhoi ystyriaeth i ffactorau sy'n effeithio ymddygiadau pobl o ran iechyd a llesiant	**Dangos sut**	**Gwneud**

Deilliant dysgu	Gradd MPharm	Blwyddyn hyfforddiant sylfaen
12. Cymryd agwedd hollgynhwysol i sicrhau y cymerir y camau mwyaf priodol, yn seiliedig ar ystyriaethau clinigol, cyfreithiol a phroffesiynol	**Dangos sut**	**Gwneud**
13. Adnabod effaith seicolegol, ffisiolegol a chorfforol penderfyniadau rhagnodi ar bobl	**Dangos sut**	**Gwneud**
14. Gweithio ar y cyd ac yn effeithiol gydag aelodau eraill y tîm aml-ddisgyblaethol i sicrhau gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys gofal parhaus	**Dangos sut**	**Gwneud**

Maes: Arfer proffesiynol

Os ydynt yn mynd i basio, rhaid i fyfyrwyr/hyfforddeion allu arddangos y canlynol ar ddiwedd pob elfen o'u haddysg a hyfforddiant cychwynnol:

Tabl 2: Deilliannau dysgu ar gyfer arfer proffesiynol

Deilliant dysgu	Gradd MPharm	Blwyddyn hyfforddiant sylfaen
15. Arddangos y gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau a ddisgwylir gan weithiwr fferyllol proffesiynol trwy gydol yr amser	**Gwneud**	**Gwneud**
16. Defnyddio barn broffesiynol ymhob sefyllfa, gan roi ystyriaeth i ymresymu cyfreithiol a moesegol	**Gwneud**	**Gwneud**
17. Cydnabod a gweithio o fewn terfynau eu gwybodaeth a'u sgiliau, a chael cefnogaeth a chyfeirio at eraill pan mae angen	**Gwneud**	**Gwneud**
18. Cymryd cyfrifoldeb am bob agwedd o wasanaethau fferyllol a gofalu fod y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir yn ddiogel a manwl-gywir	**Gwneud**	**Gwneud**
19. Cymryd cyfrifoldeb am bob agwedd o iechyd a diogelwch a gweithredu yn ôl y galw	**Gwneud**	**Gwneud**
20. Gweithredu'n agored a gonest pan mae pethau'n mynd o le a lleisio pryderon hyd yn oed pan nad yw'n hawdd gwneud hynny	**Gwneud**	**Gwneud**
21. Cymhwyso'r wyddoniaeth sy'n sail i fferylliaeth yn eu holl weithgareddau	**Gwneud**	**Gwneud**

Ionawr 2021

Deilliant dysgu	Gradd MPharm	Blwyddyn hyfforddiant sylfaen
22. Arddangos sut y mae'r wyddoniaeth sy'n sail i fferylliaeth yn cael ei chymhwyso wrth ddarganfod, cynllunio, datblygu a phrofi diogelwch meddyginiaethau a dyfeisiau	**Dangos sut**	**Gwybod sut**
23. Adnabod y technolegau sydd y tu ôl i ddatblygu uwch gynhyrchion meddyginiaethol therapiwtig a meddyginiaethau manwl, gan gynnwys ffurfio, cyflenwi a sicrhau ansawdd yr asiantau therapiwtig hyn	**Dangos sut**	**Gwneud**
24. Dod i wybod am dechnolegau newydd a defnyddio data a thechnolegau digidol i wella deilliannau clinigol a diogelwch cleifion, gan gydymffurfio ag egwyddorion llywodraethiant gwybodaeth	**Dangos sut**	**Gwneud**
25. Cymhwyso egwyddorion fferyllol wrth ffurfio, paratoi, pecynnu a gwaredu meddyginiaethau a chynhyrchion yn ddiogel ac effeithiol	**Gwybod sut**	**Dangos sut**
26. Ystyried ansawdd a diogelwch meddyginiaethau a chynhyrchion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â nhw a chymryd camau priodol wrth eu cynhyrchu, eu cyflenwi a'u rhagnodi	**Gwybod sut**	**Dangos sut**
27. Cymryd cyfrifoldeb am gyflenwi, rhagnodi a gweinyddu meddyginiaethau a dyfeisiau mewn ffordd gyfreithlon, diogel ac effeithlon	**Dangos sut**	**Gwneud**
28. Arddanos sgiliau diagnostig effeithiol, gan gynnwys archwiliad corfforol, er mwyn penderfynu ar y camau mwyaf priodol ar gyfer y person	**Dangos sut**	**Gwneud**
29. Cymhwyso egwyddorion therapiwteg clinigol, ffarmacoleg a genomeg er mwyn gwneud defnydd effeithiol o feddyginiaethau ar gyfer pobl, gan gynnwys yn eu harfer rhagnodi	**Dangos sut**	**Gwneud**
30. Arfarnu'r corff tystiolaeth a defnyddio ymresymu clinigol a barn broffesiynol er mwyn gwneud penderfyniadau diogel a rhesymegol sy'n lleihau risg ac yn gwella'r deilliannau i'r person	**Dangos sut**	**Gwneud**
31. Gwerthuso'n feirniadol a defnyddio canllawiau cenedlaethol a thystiolaeth glinigol i gefnogi caffael diogel, rhesymiadol a chost-effeithiol ar gyfer defnyddio a rhagnodi meddyginiaethau, dyfeisiau a gwasanaethau	**Dangos sut**	**Gwneud**

Deilliant dysgu	Gradd MPharm	Blwyddyn hyfforddiant sylfaen
32. Gwneud cyfrifiadau yn fanwl-gywir	**Gwneud**	**Gwneud**
33. Hyrwyddo ffyrdd iachus o fyw yn effeithiol gan ddefnyddio technegau seiliedig ar dystiolaeth	**Dangos sut**	**Gwneud**
34. Cynhwyso egwyddorion monitro a rheoli effeithiol er mwyn gwella deilliannau iechyd	**Dangos sut**	**Gwneud**
35. Rhagweld ac adnabod adweithiau andwyol i gyffuriau, ac adnabod yr angen i gymhwyso egwyddorion ffarmacowyliadwraeth[3]	**Gwneud**	**Gwneud**
36. Cymhwyso deddfwriaeth berthnasol ac arferion gwneud penderfyniadau moesegol ar gyfer rhagnodi, gan gynnwys rhagnodi o bell	**Dangos sut**	**Gwneud**
37. Rhagnodi'n effeithiol o fewn y systemau a fframweithiau perthnasol ar gyfer defnyddio meddyginiaethau	**Dangos sut**	**Gwneud**
38. Deall llywodraethiant clinigol o ran rhagnodi, tra hefyd yn ystyried y gall y rhagnodydd fod mewn sefyllfa i gyflenwi'r meddyginiaethau a ragnodwyd i bobl	**Dangos sut**	**Gwneud**
39. Cymryd cyfrifoldeb am gofnodion iechyd pobl, gan gynnwys cyfreithlondeb, priodoldeb, manwl-gywirdeb, diogeledd a chyfrinachedd data personol	**Dangos sut**	**Gwneud**
40. Deall a gweithredu gweithdrefnau diogelu perthnasol, gan gynnwys canllawiau lleol a chenedlaethol ar gyfer pob person	**Dangos sut**	**Gwneud**
41. Gwneud defnydd effeithiol o bolisïau iechyd a gofal cymdeithasol lleol a chenedlaethol i wella deilliannau iechyd a iechyd cyhoeddus ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd	**Dangos sut**	**Gwneud**
42. Cyfrannu'n rhagweithiol at hyrwyddo a diogelu iechyd cyhoeddus yn eu gwaith	**Dangos sut**	**Gwneud**
43. Adnabod enghreifftiau o gamddefnyddio meddyginiaethau a gweithredu strategaethau effeithiol i ddelio â hyn	**Dangos sut**	**Gwneud**

[3] Monitro effeithiau meddyginiaethau wedi iddynt gael eu trwyddedu i'w defnyddio, ac yn enwedig felly i adnabod adweithiau andwyol na chafwyd gwybod amdanynt o'r blaen.

Deilliant dysgu	Gradd MPharm	Blwyddyn hyfforddiant sylfaen
44. Ymateb yn briodol i argyfyngau meddygol, gan gynnwys darparu cymorth cyntaf	**Gwybod sut**	**Dangos sut**

Maes: Arweinyddiaeth a rheolaeth

Os ydynt yn mynd i basio, rhaid i fyfyrwyr/hyfforddeion allu arddangos y canlynol ar ddiwedd pob elfen o'u haddysg a hyfforddiant cychwynnol:

Tabl 3: Deilliannau dysgu ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth

Deilliant dysgu	Gradd MPharm	Blwyddyn hyfforddiant sylfaen
45. Arddangos sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol fel rhan o'r tîm aml-ddisgyblaethol	**Dangos sut**	**Gwneud**
46. Defnyddio sgiliau a gwybodaeth aelodau eraill o'r tîm aml-ddisgyblaethol er mwyn rheoli adnoddau a blaenoriaethau	**Dangos sut**	**Gwneud**
47. Datblygu, arwain a defnyddio strategaethau effeithiol i wella ansawdd gofal a'r defnydd diogel o feddyginiaethau	**Gwybod sut**	**Gwneud**
48. Chwarae rhan amlwg yn y gwaith o reoli risgiau ac ystyried yr effeithiau ar bobl	**Dangos sut**	**Gwneud**
49. Defnyddio dulliau a thechnegau i osgoi camgymeriadau gyda meddyginiaethau yn gysylltiedig â rhagnodi, cyflenwi a gweinyddu	**Dangos sut**	**Gwneud**
50. Cymryd camau priodol i ymateb i gwynion, digwyddiadau neu gamgymeriadau mewn ffordd amserol a'u rhwystro rhag digwydd eto	**Dangos sut**	**Gwneud**
51. Sylweddoli pryd a sut y gallai eu perfformiad nhw neu berfformiad pobl eraill roi pobl mewn perygl a chymryd camau priodol	**Dangos sut**	**Gwneud**
52. Arddangos gwytnwch a hyblygrwydd, a defnyddio strategaethau effeithiol i reoli blaenoriaethau niferus, ansicrwydd, cymhlethdod a newid	**Dangos sut**	**Gwneud**

Maes: addysg ac ymchwil

Os ydynt yn mynd i basio, rhaid i fyfyrwyr/hyfforddeion allu arddangos y canlynol ar ddiwedd pob elfen o'u haddysg a hyfforddiant cychwynnol:

Tabl 4: Deilliannau dysgu ar gyfer addysg ac ymchwil

Deilliant dysgu	Gradd MPharm	Blwyddyn hyfforddiant sylfaen
53. Myfyrio ar, adnabod a mynd ati'n rhagweithiol i ddarparu ar gyfer eu hanghenion dysgu	**Gwneud**	**Gwneud**
54. Cefnogi dysgu a datblygiad eraill, gan gynnwys trwy fentora	**Dangos sut**	**Gwneud**
55. Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil, archwiliadau, gwerthuso gwasanaethau a gwella ansawdd, ac arddangos sut mae'r rhain yn cael eu defnyddio i wella gofal a gwasanaethau	**Dangos sut**	**Gwneud**

Rhan 2: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr

Mae Rhan 2 yn cynnwys y safonau ar gyfer y sefydliadau sy'n darparu addysg a hyfforddiant cychwynnol, a'r meini prawf sy'n gysylltiedig â nhw.

Yr egwyddor gyffredinol yw bod safonau a meini prawf yn berthnasol i'r holl sefydliadau ac amgylcheddau sy'n cyfrannu at ddarparu addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. Fodd bynnag, bydd y pwyslais a roddir ar safon neu faen prawf yn amrywio yn ôl y rôl a gyflawnir gan y sefydliad. O'r herwydd, rhaid i bawb perthnasol weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r safon. Rhaid i sefydliadau sy'n darparu neu'n rheoli unrhyw agwedd o addysg a hyfforddiant cychwynnol gyflawni'r safonau perthnasol ar gyfer yr holl weithgareddau a gyflawnant[4].

Rhennir Rhan 2 yn ddwy ran:

- y gofynion ar gyfer gradd MPharm
- y gofynion ar gyfer y flwyddyn hyfforddiant sylfaen

Gradd MPharm

Cyflwyniad

Bydd graddau MPharm yn cael eu cyflwyno'n bennaf gan sefydliadau addysg uwch, ond bydd angen cydweithio ag eraill gan gynnwys, er enghraift, cyrff addysg statudol. Bydd union natur y cydweithio yn cael ei benderfynu rhwng y sefydliadau hyn ac wedi ymgynghori â'r CFfC.

Y radd is-raddedig yw'r un fwyaf addas i amlygu'r sgiliau a phriodweddau sy'n gysylltiedig â bod yn rhagnodydd. Byddant yn cael eu hymgorffori trwy gydol y bedair blynedd er mwyn paratoi ar gyfer y flwyddyn hyfforddiant sylfaen.

Wedi iddynt raddio'n llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn gwneud eu blwyddyn hyfforddiant sylfaen. Bydd hyn yn cynnwys cyfnod o arfer dan oruchwyliaeth yn ymwneud yn benodol â rhagnodi (oni bai fod myfyrwyr wedi dewis cymryd rhan mewn MPharm 5 mlynedd gyda hyfforddiant integredig).

[4] Yn ogystal â chyflawni'r safonau hyn, rhaid i brifysgolion gyflawni *UK Quality Code for Higher Education* yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (2018).

Safon 1: Dewis a derbyn

Rhaid i fyfyrwyr gael eu dewis ar gyfer a'u derbyn ar raddau MPharm ar y sail eu bod yn cael eu paratoi i weithio yn fferyllydd

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

1.1 Rhaid defnyddio egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch mewn prosesau dewis. Rhaid i brosesau dewis roi cyfle i bob ymgeisydd arddangos eu gallu a'u haddasrwydd, gan roi ystyriaeth i'w cefndir (megis nodweddion gwarchodedig a chefndir cymdeithasol-economaidd ac addysgol).

1.2 Rhaid i sefydliadau addysg uwch wneud pob ymdrech i adnabod a lleihau gwahaniaethu mewn prosesau dewis a derbyn. Fel man cychwyn, bob blwyddyn, rhaid i broffil derbyn gradd MPharm gael ei ddadansoddi yn ôl nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rhaid cymryd a chofnodi camau os yw'r dadansoddiad hwnnw'n dangos y gall y broses dderbyn fod yn gosod myfyrwyr dan anfantais.

1.3 Rhaid darparu gwybodaeth dderbyn fanwl-gywir i ddarpar ymgeisyddion.

1.4 Rhaid i brosesau dewis roi'r arweiniad sydd ei angen ar ymgeisyddion i wneud cais gwybodus.

1.5 Rhaid i feini prawf fod yn bendant. Rhaid iddynt gynnwys:

a cyflawni gofynion derbyn academaidd

b cyflawni gofynion derbyn proffesiynol – hynny yw, addasrwydd i weithio'n fferyllydd[5]

c cyflawni gofynion rhifedd

d cyflawni gofynion iaith Saesneg ar gyfer astudio ar lefel Meistr ac ar gyfer cofrestriad proffesiynol. Dylid dilyn canllawiau a gyhoeddir gan gyrff profi iaith Saesneg er mwyn sicrhau bod gofynion derbyn ar gyfer iaith yn briodol

e rhoi ystyriaeth i wiriadau cymeriad da

f rhoi ystyriaeth i archwiliadau iechyd

g cydnabod dysgu blaenorol, lle y mae hynny'n briodol

h rhoi ystyriaeth i gefndir cymdeithasol-economaidd ac addysgol ymgeisydd

1.6 Dylai meini prawf derbyn roi ystyriaeth i'r gofynion derbyn ar gyfer cyfnodau dysgu wrth weithio. Bydd y rhain yn cynnwys y rhai a oruchwylir gan gyrff addysg statudol megis NHS Education Scotland (NES), Health Education England (HEE), Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) a'r Northern Ireland Centre for Pharmacy Learning and Development (NICPLD).

1.7 Rhaid i'r holl brosesau derbyn a dewis gynnwys elfen ryngweithiol er mwyn asesu gwerthoedd ac addasrwydd proffesiynol ymgeisyddion. Mae cael proses ymgeisio gadarn gan gynnwys rhyngweithedd yn

[5] Fel y'u nodir yn ***Standards for pharmacy professionals,*** *(2017)*

berthnasol hefyd i geisiadau Clirio ac Addasu.

1.8 Pan mae sefydliadau addysg uwch yn derbyn ymgeisyddion nad ydynt yn cyflawni'r gofynion derbyn academaidd, rhaid iddynt esbonio'n glir y meini prawf a ddefnyddiwyd wrth wneud y penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â pholisi'r sefydliad ar gynigion cyd-destunol.

1.9 Nid yw cynigion diamod, lle y derbyniwyd myfyrwyr ar raglen heb iddynt gyflawni'r gofynion derbyn, yn cael eu caniatáu[6].

Safon 2: Cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch

Rhaid i raddau MPharm fod yn seiliedig ar a hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch; bodloni'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol; a chael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n diwallu anghenion amrywiol

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

2.1 Rhaid i systemau a pholisïau hyrwyddo egwyddorion a gofynion cyfreithiol cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch.

2.2 Rhaid cael systemau a pholisïau er mwyn caniatáu i bawb perthnasol ddeall amrywiaeth y corff myfyrwyr a goblygiadau hynny ar gyfer y ddarpariaeth.

2.3 Rhaid cael systemau a pholisïau er mwyn caniatáu i bawb perthnasol ddeall amrywiaeth amgylchiadau a phrofiadau myfyrwyr a goblygiadau hynny ar gyfer cefnogi a datblygu myfyrwyr.

2.4 Bob blwyddyn, rhaid cael adolygiad o berfformiad myfyrwyr yn ôl nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol perthnasol. Rhaid cymryd a chofnodi camau i fynd i'r afael â gwahaniaethau pan gânt eu darganfod.

2.5 Rhaid i bawb dan sylw gael eu hyfforddi i weithredu egwyddorion a gofynion

Alban a wnaed ar ôl cael y graddau angenrheidiol.

[6] Mae gwahardd cynigion diamod yn eithrio derbyn gohiriedig ar radd MPharm oherwydd blwyddyn saib neu drefniant tebyg (os cafwyd y graddau yn barod) neu gynigion diamod yn Yr

cyfreithiol cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch yn eu rôl.

2.6 Rhaid i'r gwaith o gynllunio a chyflwyno gradd MPharm sicrhau bod myfyrwyr fferylliaeth yn deall eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol ac yn mynd ati'n rhagweithiol i ddysgu am a deall cymunedau a diwylliannau.

Safon 3: Adnoddau a galluedd

Rhaid cael digon o adnoddau a galluedd i gyflawni'r deilliannau dysgu yn y safonau hyn

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

3.1 Rhaid cael systemau cadarn a thryloyw ar gyfer sicrhau lefel briodol o adnoddau ar gyfer cyflwyno gradd MPharm gynaliadwy sy'n bodloni gofynion y safonau hyn.

3.2 Rhaid i'r staffio fod yn briodol ar gyfer cyflwyno pob rhan o radd MPharm.

3.3 Rhaid cyflwyno graddau MPharm mewn adeiladau sy'n gweddu i'w pwrpas.

Safon 4: Rheoli, datblygu a gwerthuso graddau MPharm

Rhaid i ansawdd gradd MPharm gael ei reoli, ei ddatblygu a'i werthuso mewn ffordd systematig

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

4.1 Rhaid cael systemau a pholisïau er mwyn rheoli a darparu gradd MPharm, gan gynnwys y cyfnodau o ddysgu trwy brofiad a rhwng y proffesiynau.

4.2 Rhaid cael cytundebau rhwng pawb perthnasol sy'n nodi rheolaeth, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd pob sefydliad, gan gynnwys y rhai sy'n cyfrannu at gyfnodau o ddysgu trwy brofiad a rhwng y proffesiynau.

4.3 Rhaid rhoi ystyriaeth i farn nifer o fudd-ddeiliaid gwahanol – gan gynnwys cleifion, y cyhoedd a goruchwylwyr – wrth gynllunio a darparu graddau MPharm.

4.4 Rhaid cynnwys adborth gan fyfyrwyr fferylliaeth yn y prosesau monitro, adolygu a gwerthuso.

4.5 Rhaid defnyddio systemau a pholisïau mewn ffordd sy'n golygu y caiff y radd MPharm ei gwerthuso ar sail tystiolaeth ac y ceir gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff ei darparu.

4.6 Rhaid diwygio graddau MPharm pan geir newidiadau arwyddocaol o ran arfer, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn berthnasol a chyfredol.

Safon 5: Cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm

Rhaid i gwricwlwm gradd MPharm ddefnyddio strategaeth addysgu a dysgu gydlynol er mwyn datblygu'r sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymddygiadau proffesiynol angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau yn Rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r ffordd y cynllunnir ac y cyflwynir graddau MPharm sicrhau bod myfyrwyr fferylliaeth yn gweithio yn ddiogel ac effeithiol.

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

5.1 Rhaid cael cwricwlwm a strategaeth addysgu a dysgu ar gyfer y radd MPharm, sy'n esbonio sut fydd myfyrwyr fferylliaeth yn cyflawni'r deilliannau dysgu yn Rhan 1.

5.2 Rhaid cysylltu cydrannau'r radd MPharm mewn ffordd gydlynol. Rhaid i hyn fod yn gynyddol ac yn fwyfwy cymhleth hyd nes y cyrhaeddir lefel briodol.

5.3 Rhaid i bawb perthnasol weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r radd MPharm.

5.4 Rhaid cyflwyno'r deilliannau dysgu mewn amgylchedd sy'n gosod astudio mewn cyd-destun proffesiynol ac academaidd ac sy'n disgwyl i fyfyrwyr ymddwyn yn broffesiynol.

5.5 Rhaid darparu gradd MPharm mewn amgylchedd sy'n defnyddio ymchwil i gefnogi dysgu ac addysgu.

5.6 Rhaid i gwricwlwm y radd MPharm gynnwys profiad o waith ymarferol gyda chleifion, gofalwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Rhaid i fyfyrwyr

fferylliaeth gael profiad o weithio gydag ehangder priodol o gleifion a phobl mewn nifer o amgylcheddau gwahanol (go iawn ac efelychol) er mwyn eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau a'r lefel o gymhwysedd i gyflawni'r deilliannau dysgu perthnasol yn Rhan 1 y safonau hyn. Dylai'r profiad hwn fod yn gynyddol, yn fwyfwy cymhleth a dylai roi ystyriaeth i arfer gorau.

5.7 Yn ystod gradd MPharm, rhaid cael cynllun dysgu rhwng y proffesiynau. Rhaid i fyfyrwyr fferylliaeth dderbyn addysg rhwng y proffesiynau (IPE) trwy strategaeth gynyddol yn seiliedig ar ***Ganllawiau Addysg rhwng y Proffesiynau*** **y Ganolfan er Hyrwyddo Addysg Rhwng y Proffesiynau** (CAIPE, 2017). Rhaid i IPE adlewyrchu arfer a rhaid iddo ganolbwyntio ar ryngweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill. Rhaid cychwyn yr ymgysylltu â phroffesiynau gofal ac iechyd eraill yn gynnar, gan symud ymlaen at ryngweithiadau mwy cymhleth er mwyn galluogi myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r a'r lefel o gymhwysedd sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r deilliannau dysgu perthnasol yn Rhan 1 y safonau hyn.

5.8 Rhaid i reoliadau academaidd fod yn briodol ar gyfer gradd sydd yn academaidd a phroffesiynol a gall arwain at ragor o hyfforddiant proffesiynol. Yr egwyddor gyffredinol yw bod rhaid pasio pob asesiad. Golyfa hynny y dylai goddefiad[7], unioni[8], ymlusgo[9], cyfleoedd ail-eistedd estynedig a chamau unioni eraill fod yn hynod gyfyngedig ac yn rhai y gellir eu cyfiawnhau, os ydynt yn cael eu caniatáu o gwbl. Gall rheoliadau academaidd fod yn fwy llym nac ar gyfer rhaglenni eraill. Gall hyn gynnwys marciau pasio uwch-na'r-cyffredin ar gyfer asesiadau sy'n arddangos y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer arfer fferyllol diogel ac effeithiol.

5.9 Rhaid i sefydliadau addysg uwch gael gweithdrefnau i ddelio â phryderon – gan gynnwys gweithdrefnau ffit i weithio – a rhaid iddynt roi gwybod i'r CFfC am unrhyw ddeilliannau o wrandawiadau (ac eithrio rhybuddion neu pan na chymerwyd unrhyw gamau) a roddwyd i fyfyrwyr.

5.10 Ni ddylai myfyrwyr fferylliaeth dderbyn gradd MPharm achrededig os oes unrhyw bryderon ffitrwydd myfyriwr i weithio heb eu datrys yn eu cylch.

5.11 Os yw rhaglen yn dod i ben neu'n cael ei diddymu, rhaid i sefydliadau addysg uwch

[7] Pan roddir 'pas' er na chyrhaeddwyd y safon ar gyfer pas, fel arfer pan mae maint y methiant yn fach.

[8] Caniatáu methiant o faint bychan mewn nifer cyfyngedig o asesiadau ar sail perfformiad boddhaol yn gyffredinol.

[9] Gallu cychwyn y flwyddyn astudio nesaf pan nad yw un neu ragor o'r asesiadau o'r flwyddyn flaenorol wedi cael eu pasio eto.

gael proses a gofnodwyd er mwyn rheoli'r broses o gau neu ddiddymu'r rhaglen.

5.12 Rhaid i sefydliadau addysg uwch fod yn agored gyda'r CFfC am faterion yn effeithio ar radd MPharm achrededig. O dan Orchymyn Fferylliaeth 2010 rhaid i ysgolion fferylliaeth gynorthwyo'r CFfC yn ei waith trwy ddarparu gwybodaeth y gofynnir amdani.

5.13 Rhaid i sefydliadau addysg uwch fynd ati'n rhagweithiol i ddwyn materion perthnasol i sylw'r CFfC.

Safon 6: Asesu

Rhaid i sefydliadau addysg uwch ddangos fod ganddynt strategaeth asesu gydlynol sy'n asesu'r sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymddygiadau angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r deilliannau dysgu yn Rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r strategaeth asesu asesu a yw arfer myfyriwr fferylliaeth yn ddiogel

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

6.1 Rhaid cael cynllun asesu ar gyfer gradd MPharm.

6.2 Rhaid i sefydliadau addysg uwch ddangos fod eu cynllun asesu:

- a yn gydlynol
- b yn gweddu i'w bwrpas, a'i
- c fod yn gofalu fod asesu yn drylwyr, dilys a dibynadwy, a'i fod yn cynnwys asesu diagnostig, ffurfiannol a chrynodol

6.3 Rhaid i gynlluniau asesu ar gyfer y radd MPharm asesu'r deilliannau yn Rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r dulliau asesu a ddefnyddir fod yn:

- a briodol i'r deilliannau dysgu
- b yn gydnaws ag arfer cyfredol a gorau, a
- c chael eu monitro a'u datblygu'n rheolaidd a sicrhau eu hansawdd

6.4 Rhaid i asesu fod yn deg a rhaid ei gynnal yn ôl meini prawf pendant. Rhaid i'r safon a ddisgwylir gan fyfyrwyr ymhob maes a asesir fod yn glir; a rhaid i fyfyrwyr a phawb sydd ynghlwm wrth asesu fod yn ymwybodol o'r safon hwn. Rhaid

defnyddio proses briodol ar gyfer gosod safonau ar gyfer asesiadau crynodol a wneir yn ystod y radd MPharm.

6.5 Rhaid i ddiogelwch cleifion ddod yn gyntaf bob tro, a rhaid i sefydliadau addysg uwch asesu a yw myfyriwr fferylliaeth yn gweithio'n ddiogel.

6.6 Rhaid i feini prawf pasio ar gyfer asesiadau adlewyrchu arfer diogel ac effeithiol.

6.7 Rhaid bod yn glir pa ddulliau gosod safonau a ddefnyddir yn ystod y radd MPharm.

6.8 Rhaid i sefydliadau addysg uwch gael systemau rheoli effeithiol ar waith i gynllunio, monitro a chofnodi asesiadau myfyrwyr. Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys monitro dysgu trwy brofiad a rhwng y proffesiynau, yn ystod y radd MPharm, yn ôl pob un o'r deilliannau dysgu.

6.9 Rhaid i sefydliadau addysg uwch gefnogi myfyrwyr i wella eu perfformiad trwy ddarparu adborth rheolaidd ac amserol a thrwy annog myfyrwyr i fyfyrio ar eu harfer.

6.10 Rhaid i asesu ddefnyddio adborth a gasglwyd o ffynonellau amrywiol, a ddylai gynnwys aelodau eraill o'r tîm fferylliaeth, cyd-fyfyrwyr, cleifion a goruchwylwyr.

6.11 Rhaid bod gan arholwyr ac aseswyr y sgiliau, profiad a hyfforddiant priodol i gyflawni'r dasg o asesu.

6.12 haid i sefydliadau addysg uwch ofyn i arholwyr allanol adrodd bob blwyddyn ar i ba raddau y mae prosesau asesu:

a yn drylwyr

b yn cael eu gosod ar y safon iawn

c yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu trin yn gyfartal, ac

d y cawsant eu cynnal yn deg

6.13 Rhaid cofnodi cyfrifoldebau arholwyr allanol yn glir.

6.14 Rhaid i reoliadau asesu fod yn briodol ar gyfer graddau MPharm sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol. Hynny yw, mae'n rhaid iddynt flaenoriaethu proffesiynoldeb, diogelwch cleifion ac arfer diogel ac effeithiol.

Safon 7: Cefnogaeth a datblygiad ar gyfer myfyrwyr fferylliaeth a phawb sydd ynghlwm wrth gyflwyno gradd MPharm

Rhaid cefnogi myfyrwyr fferylliaeth ymhob amgylchedd dysgu a hyfforddiant i ddatblygu'n ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol yn ystod eu graddau MPharm

Dylid cefnogi pawb sydd ynghlwm wrth gyflwyno gradd MPharm i ddatblygu yn

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

Cefnogaeth i fyfyrwyr fferylliaeth

7.1 Rhaid cael nifer o systemau gwahanol ar waith yn ystod y radd MPharm i adnabod y gefnogaeth sydd ei hangen ar fyfyrwyr, ac i'w cefnogi i gyflawni'r deilliannau yn Rhan 1 y safonau hyn. Mae'n rhaid iddynt fod yn seiliedig ar gyflawniadau blaenorol y myfyriwr a'u teilwra ar eu cyfer. Rhaid i systemau gynnwys:

- a cyfnod cynefino
- b goruchwyliaeth effeithiol
- c llwyth gwaith priodol a realistig
- d cefnogaeth bersonol, sgiliau astudio a chefnogaeth academaidd
- e amser i ddysgu
- f mynediad at adnoddau, ac
- g adferiad, os oes angen

7.2 Rhaid i fyfyrwyr fferylliaeth allu troi at gymorth ym meysydd cyngor academaidd, lles cyffredinol a gyrfaol.

7.3 Rhaid i fyfyrwyr fferylliaeth allu troi at weithwyr fferylliaeth proffesiynol sy'n gallu bod yn fodelau rôl a mentoriaid, gan gynnig cefnogaeth ac arweiniad proffesiynol.

7.4 Rhaid cael gweithdrefnau pendant os yw myfyrwyr fferylliaeth eisiau lleisio unrhyw bryderon. Rhaid delio'n syth ag unrhyw bryderon, a chymryd camau wedi'u cofnodi lle'n briodol.

Cefnogaeth i bawb sy'n rhan o darparu Gradd MPharm

7.5 Rhaid cael nifer o systemau gwahanol ar waith i gefnogi pawb sydd ynghlwm wrth ddarparu'r radd MPharm i ddatblygu yn eu rôl broffesiynol.

7.6 Rhaid darparu hyfforddiant ar gyfer pawb sydd ynghlwm wrth ddarparu'r radd MPharm.

7.7 Rhaid i bawb sydd ynghlwm wrth ddarparu gradd MPharm gael:

- a goruchwyliaeth effeithiol
- b llwyth gwaith priodol a realistig
- c mentora
- d amser i ddysgu
- e cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus, a
- f chefnogaeth gan gyfoedion

7.8 Rhaid cael gweithdrefnau clir ar gyfer pawb perthnasol i leisio pryderon. Rhaid delio'n syth ag unrhyw bryderon, a chymryd camau wedi'u cofnodi lle'n briodol. Rhaid mynd ati o ddifrif i godi pryderon difrifol am y rhaglen a'r effaith ar fyfyrwyr gyda'r CFfC.

Blwyddyn hyfforddiant sylfaen

Cyflwyniad

Mae'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen yn digwydd wedi i fyfyrwyr raddio gyda gradd MPharm (oni bai eu bod wedi dewis cymryd rhan mewn MPharm 5 mlynedd yn cynnwys hyfforddiant integredig). Mae'n atgyfnerthu eu dysgu a'u haddysg gychwynnol.

Mae'n cynnig hyfforddiant ymarferol, wrth weithio mewn lleoliad neu leoliadau clinigol. Mae'r hyfforddiant yn galluogi hyfforddeion i adeiladu ar eu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau ac ymddygiadau fferyllol, a'u profiad blaenorol, a'u defnyddio i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth baratoi ar gyfer cofrestru.

Yn ystod y flwyddyn hon bydd hyfforddeion yn cwblhau o leiaf 90 awr o arfer dan oruchwyliaeth yn ymwneud yn benodol â rhagnodi.

Pwrpas hynny yw cryfhau eu cymhwysedd a chaniatáu iddynt sicrhau eu hanodiad rhagnodydd annibynnol pan maent yn cofrestru.

Cyflwynir hyfforddiant sylfaen gan y cyrff addysg statudol, cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch, oll yn gweithio gyda'i gilydd. Caiff union natur y cydweithio hwn ei benderfynu rhwng y sefydliadau hyn a chaiff ei gymeradwyo gan y CFfC.

Bydd y cyrff addysg statudol yn gyfrifol am hyfforddeion sylfaen yn eu priod feysydd cyfrifoldeb. Mae'r diagram isod yn darlunio'r gwahanol gyfrifoldebau am sicrhau ansawdd, rheoli ansawdd a gweithredu ansawdd.

Tabl 5: Cyfrifoldebau am sicrhau ansawdd, rheoli ansawdd a gweithredu ansawdd

Sefydliad neu grŵp	Cyfrifoldeb	Cyflawnwyd gan	Gweithgaredd
CFfC	Sicrhau ansawdd	Gosod a rheoli ansawdd y safonau	Gosod safonau a sicrhau ansawdd y gwaith o reoli'r addysg
Cyrff addysg statudol a'u partneriaid	Rheoli ansawdd	Goruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r flwyddyn sylfaen	Cynllunio, rheoli a monitro'r flwyddyn sylfaen
Cyflogwyr, goruchwylwyr dynodedig a phartneriaid rhagnodi penodedig	Gweithredu ansawdd	Y gwaith beunyddiol o gyflwyno'r flwyddyn sylfaen	Goruchwylio, mentora a chynnig adborth i hyfforddeion

Safon 1: Dewis a derbyn

Rhaid i hyfforddeion gael eu dewis ar gyfer a'u derbyn ar y flwyddyn hyfforddiant sylfaen ar y sail eu bod yn cael eu paratoi i weithio yn fferyllydd

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

1.1 Rhaid defnyddio egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch mewn prosesau dewis. Rhaid i brosesau dewis fod yn deg a rhoi cyfle i bob ymgeisydd arddangos eu gallu a'u haddasrwydd i fod yn hyfforddai fferylliaeth.

1.2 Rhaid i bawb perthnasol wneud pob ymdrech i adnabod a lleihau gwahaniaethu mewn prosesau dewis a derbyn. Fel man cychwyn, bob blwyddyn, rhaid i'r proffil derbyn gael ei ddadansoddi yn ôl nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rhaid cymryd a chofnodi camau os yw'r dadansoddiad hwnnw'n dangos y gall y broses dderbyn fod yn gosod hyfforddeion dan anfantais.

1.3 Rhaid i brosesau dewis roi'r arweiniad sydd ei angen ar ymgeisyddion i wneud cais gwybodus.

1.4 Rhaid i feini prawf fod yn bendant. Rhaid iddynt gynnwys:

a wedi graddio gyda gradd MPharm, neu wedi cwblhau'n llwyddiannus holl elfennau angenrheidiol gradd MPharm 5 mlynedd gyda'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen integredig i'w galluogi i ddechrau hyfforddiant

b cyflawni gofynion derbyn proffesiynol – hynny yw, addasrwydd i weithio'n fferyllydd[10]

c rhoi ystyriaeth i'r sector neu sectorau y maent angen ac eisiau cael profiad ynddynt er mwyn cyflawni'r deilliannau dysgu

[10] ***Standards for pharmacy professionals,* 2017**

Safon 2: Cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch

Rhaid i'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen fod yn seiliedig ar a hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch; bodloni'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol; a chael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n diwallu anghenion amrywiol yr holl

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

2.1 Rhaid i systemau a pholisïau hyrwyddo egwyddorion a gofynion cyfreithiol cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch.

2.2 Rhaid cael systemau a polisïau er mwyn caniatáu i bawb perthnasol ddeall amrywiaeth y corff hyfforddeion a goblygiadau hynny ar gyfer y ddarpariaeth.

2.3 Rhaid cael systemau a polisïau er mwyn caniatáu i bawb perthnasol ddeall amrywiaeth amgylchiadau a phrofiadau hyfforddeion a goblygiadau hynny ar gyfer cefnogi a datblygiad hyfforddeion.

2.4 Bob blwyddyn, rhaid cael adolygiad o berfformiad hyfforddeion yn ôl nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol perthnasol. Rhaid cymryd a chofnodi camau i fynd i'r afael â gwahaniaethau pan gânt eu darganfod.

2.5 Rhaid i bawb dan sylw gael eu hyfforddi i weithredu egwyddorion a gofynion cyfreithiol cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch yn eu rôl.

2.6 Rhaid i'r gwaith o gynllunio a chyflwyno rhaglenni sicrhau bod hyfforddeion fferylliaeth yn deall eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol ac yn mynd ati'n rhagweithiol i ddysgu am a deall cymunedau a diwylliannau.

Safon 3: Adnoddau a galluedd

Rhaid cael digon o adnoddau a galluedd i gyflawni'r deilliannau dysgu yn y safonau hyn

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

3.1 Rhaid cael systemau cadarn a thryloyw ar gyfer sicrhau lefel briodol o adnoddau ar gyfer cyflwyno blwyddyn hyfforddiant sylfaen gynaliadwy sy'n bodloni gofynion y safonau hyn.

3.2 Rhaid i'r staffio fod yn briodol ar gyfer cyflwyno pob rhan o'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen.

3.3 Rhaid cyflwyno'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen mewn adeiladau sy'n gweddu i'w pwrpas.

Safon 4: Rheoli, datblygu a gwerthuso graddau MPharm

Rhaid i ansawdd y flwyddyn sylfaen gael ei reoli, ei ddatblygu a'i werthuso mewn ffordd systematig

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

4.1 Rhaid cael systemau a pholisïau er mwyn rheoli a darparu'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen ymhob amgylchedd hyfforddiant.

4.2 Rhaid cael cytundebau rhwng pawb perthnasol sy'n nodi rheolaeth, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd pob sefydliad.

4.3 Rhaid rhoi ystyriaeth i farn nifer o fudd-ddeiliaid gwahanol – gan gynnwys cleifion, y cyhoedd a chyflogwyr – wrth gynllunio a darparu'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen.

4.4 Rhaid cynnwys adborth gan hyfforddeion fferylliaeth yn y prosesau monitro, adolygu a gwerthuso.

4.5 Rhaid defnyddio systemau a pholisïau mewn ffordd sy'n golygu y caiff y flwyddyn hyfforddiant sylfaen ei gwerthuso ar sail tystiolaeth ac y ceir gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff ei darparu.

4.6 Rhaid diwygio'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen pan geir newidiadau arwyddocaol o ran arfer, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn berthnasol a chyfredol.

Safon 5: Cynllunio a chyflwyno'r flwyddyn sylfaen

Rhaid i'r rhaglenni ar gyfer y flwyddyn hyfforddiant sylfaen ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymddygiadau proffesiynol angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau yn Rhan 1 y safonau hyn trwy ddefnyddio strategaeth gydlynol. Rhaid i'r ffordd y cynllunnir ac y cyflwynir y flwyddyn hyfforddiant sylfaen sicrhau bod hyfforddeion fferylliaeth yn gweithio yn ddiogel ac effeithiol

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

5.1 Rhaid cael cynllun (neu gynlluniau) hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn hyfforddiant sylfaen, sy'n esbonio sut fydd hyfforddeion fferylliaeth yn cyflawni'r deilliannau dysgu yn Rhan 1.

5.2 Rhaid cyflwyno'r deilliannau dysgu mewn amgylchedd sy'n gosod hyfforddiant mewn cyd-destun proffesiynol ac sy'n mynnu fod hyfforddeion yn ymddwyn yn broffesiynol.

5.3 Rhaid i hyfforddeion fferylliaeth gael profiad o weithio gydag ehangder priodol o gleifion a phobl mewn nifer o amgylcheddau gwahanol. Dylai'r profiad hwn fod yn gynyddol, yn fwyfwy cymhleth a dylai roi ystyriaeth i arfer gorau.

5.4 Rhaid i bawb perthnasol weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen.

5.5 Rhaid cael systemau ar waith i alluogi pawb perthnasol i gyfathrebu'n rheolaidd ar gynnydd hyfforddeion

5.6 Rhaid i hyfforddeion basio pob asesiad a chael eu cyhoeddi'n gymwys cyn cael eu cadarnhau.

5.7 Rhaid i bawb perthnasol gael gweithdrefnau i ddelio â phryderon – gan gynnwys gweithdrefnau ffit i weithio – a rhaid iddynt roi gwybod i'r CFfC am unrhyw ddeilliannau o wrandawiadau (ac eithrio rhybuddion neu pan na chymerwyd unrhyw gamau) a roddwyd i hyfforddeion.

5.8 Ni ddylai hyfforddeion fferylliaeth gael eu cadarnhau os oes unrhyw bryderon ffitrwydd hyfforddai i weithio heb eu datrys yn eu cylch.

5.9 Rhaid i bawb perthnasol fod yn agored gyda'r CFfC am faterion yn effeithio ar y flwyddyn hyfforddiant sylfaen. O dan Orchymyn Fferylliaeth 2010 rhaid iddynt gynorthwyo'r CFfC yn ei waith trwy ddarparu gwybodaeth y gofynnir amdani.

5.10 Rhaid i bawb perthnasol fynd ati'n rhagweithiol i ddwyn materion perthnasol i sylw'r CFfC.

Safon 6: Asesu

Rhaid i bawb perthnasol ddangos fod ganddynt strategaeth asesu gydlynol sy'n asesu'r sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymddygiadau angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r deilliannau dysgu yn Rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r strategaeth asesu asesu a yw arfer hyfforddai fferylliaeth yn ddiogel

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

6.1 Rhaid cael cynllun asesu ar gyfer y flwyddyn hyfforddiant sylfaen sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol.

6.2 Rhaid cael cytundebau rhwng pawb perthnasol sy'n disgrifio'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer asesu hyfforddeion.

6.3 Rhaid i bawb perthnasol ddangos fod eu cynllun asesu:

- a yn gydlynol
- b yn gweddu i'w bwrpas, a'i
- c fod yn gofalu fod asesu yn drylwyr, dilys a dibynadwy, a'i fod yn cynnwys asesu diagnostig, ffurfiannol a chrynodol

6.4 Rhaid i gynlluniau asesu ar gyfer y flwyddyn hyfforddiant sylfaen asesu'r deilliannau yn Rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r dulliau asesu a ddefnyddir fod yn:

- a briodol i'r deilliannau dysgu
- b gydnaws ag arfer cyfredol a gorau
- c cael eu monitro a'u datblygu'n rheolaidd, a sicrhau eu hansawdd
- d darparu cysondeb ar draws yr holl hyfforddeion, waeth faint o brofiad sydd ganddynt ar y pryd
- e ystyried portffolio tystiolaeth yr hyfforddai sy'n arddangos eu cymhwysedd a sut maent yn cyflawni'r deilliannau dysgu

6.5 Rhaid i asesu fod yn deg a rhaid ei gynnal yn ôl meini prawf pendant. Rhaid i'r safon a ddisgwylir gan hyfforddeion ymhob maes a asesir fod yn glir; a rhaid i hyfforddeion a phawb sydd ynghlwm wrth asesu fod yn ymwybodol o'r safon hwn.

6.6 Rhaid i ddiogelwch cleifion ddod yn gyntaf bob tro, a rhaid i bawb perthnasol asesu a yw hyfforddai fferylliaeth yn gweithio'n ddiogel.

6.7 Rhaid i feini prawf pasio ar gyfer asesiadau adlewyrchu arfer diogel ac effeithiol.

6.8 Rhaid i bawb perthnasol gael systemau rheoli effeithiol ar waith i gynllunio, monitro a chofnodi asesiadau hyfforddeion.

6.9 Rhaid i bawb perthnasol gefnogi hyfforddeion i wella eu perfformiad trwy ddarparu adborth rheolaidd ac amserol a thrwy annog hyfforddeion i fyfyrio ar eu harfer.

6.10 Rhaid i asesu ddefnyddio adborth a gasglwyd o ffynonellau amrywiol, a ddylai gynnwys aelodau eraill o'r tîm fferylliaeth, cyfoedion a chleifion.

6.11 Rhaid bod gan bawb perthnasol y sgiliau, profiad a hyfforddiant priodol i gyflawni'r dasg o asesu.

Safon 7: Cefnogaeth a datblygiad ar gyfer hyfforddeion fferylliaeth a phawb sydd ynghlwm wrth gyflwyno'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen

Rhaid cefnogi hyfforddeion fferylliaeth ymhob amgylchedd dysgu a hyfforddiant i ddatblygu'n ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol yn ystod eu haddysg a hyfforddiant cychwynnol

Dylid cefnogi pawb sydd ynghlwm wrth gyflwyno'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen i ddatblygu yn eu rôl broffesiynol

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

Cefnogaeth i hyfforddeion fferylliaeth

7.1 Rhaid cael nifer o systemau gwahanol ar waith yn ystod y flwyddyn hyfforddiant sylfaen i adnabod y gefnogaeth sydd ei hangen ar hyfforddeion, ac i'w cefnogi i gyflawni'r deilliannau yn Rhan 1 y safonau hyn. Mae'n rhaid iddynt fod yn seiliedig ar gyflawniadau blaenorol yr hyfforddai a'u teilwra ar eu cyfer. Rhaid i systemau gynnwys:

- a cyfnod cynefino
- b goruchwyliaeth effeithiol
- c llwyth gwaith priodol a realistig
- d cefnogaeth bersonol
- e amser i ddysgu
- f mynediad at adnoddau, ac
- g adferiad, os oes angen

7.2 Rhaid darparu cefnogaeth i hyfforddeion fferylliaeth gyda'u lles cyffredinol.

7.3 Rhaid i hyfforddeion fferylliaeth allu troi at weithwyr fferylliaeth proffesiynol sy'n gallu bod yn fodelau rôl a mentoriaid, gan gynnig cefnogaeth ac arweiniad proffesiynol.

7.4 Rhaid cael gweithdrefnau pendant os yw hyfforddeion fferylliaeth eisiau lleisio unrhyw bryderon. Rhaid delio'n syth ag unrhyw bryderon, a chymryd camau wedi'u cofnodi lle'n briodol.

Cefnogaeth i bawb sy'n rhan o gyflwyno'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen

7.5 Rhaid cael nifer o systemau gwahanol ar waith i gefnogi pawb sydd ynghlwm wrth ddarparu'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen i ddatblygu yn eu rôl broffesiynol.

7.6 Rhaid darparu hyfforddiant ar gyfer pawb sydd ynghlwm wrth ddarparu'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen.

7.7 Rhaid i bawb sydd ynghlwm wrth ddarparu'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen gael:

- a goruchwyliaeth effeithiol
- b llwyth gwaith priodol a realistig
- c mentora
- d amser i ddysgu
- e cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus, a
- f chefnogaeth cyfoedion

7.8 Rhaid cael gweithdrefnau clir ar gyfer pawb perthnasol i leisio pryderon. Rhaid delio'n syth ag unrhyw bryderon, a chymryd camau wedi'u cofnodi lle'n briodol. Rhaid mynd ati o ddifrif i godi pryderon difrifol am y rhaglen a'r effaith ar hyfforddeion gyda'r CFfC.

Safon 8: Y flwyddyn hyfforddiant sylfaen

Rhaid i'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen ganolbwyntio ar arfer proffesiynol fferyllwyr a rhaid iddi gyfrannu at gyflawni'r deilliannau dysgu

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn

8.1 Rhaid cael 52 wythnos o hyfforddiant ymarferol a ddynodir yn 'flwyddyn hyfforddiant sylfaen'. Yn ystod yr wythnosau hynny, rhaid i hyfforddeion gwblhau o leiaf 90 awr o arfer dan oruchwyliaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â rhagnodi annibynnol (cyfnod o ddysgu wrth weithio).

8.2 Rhaid i bawb perthnasol weithio gyda'i gilydd i ddiffinio dulliau cyflwyno a sicrhau ansawdd y flwyddyn hyfforddiant sylfaen.

8.3 Gall hyfforddiant ddigwydd mewn un sector arfer neu ragor.

8.4 Rhaid i hyfforddeion fferylliaeth ddilyn cynllun neu gynlluniau hyfforddiant yn ystod cyfnodau'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen. Rhaid fod pwrpas penodol i hyn er mwyn galluogi hyfforddeion i gyflawni'r deilliannau dysgu yn Rhan 1 y safonau hyn.

Safon 9: Goruchwyliaeth y flwyddyn hyfforddiant sylfaen

Rhaid i hyfforddeion fferylliaeth gael eu goruchwylio gan oruchwylydd dynodedig ac ymarferydd rhagnodi dynodedig yn ystod y flwyddyn hyfforddiant sylfaen i'w helpu i gyflawni'r deilliannau dysgu

Meini prawf ar gyfer cyrraedd y safon hwn[11]

9.1 Rhaid cael systemau a gytunwyd, a ddefnyddir gan bawb perthnasol, ar gyfer cydlynu goruchwyliaeth hyfforddeion, goruchwylio eu cynnydd a chadarnhau eu bod yn gymwys i weithio ar ddiwedd cyfnod olaf y flwyddyn hyfforddiant sylfaen.

9.2 Rhaid i hyfforddeion fferylliaeth gael goruchwylydd dynodedig sydd, gan weithio gyda phawb perthnasol, yn gyfrifol am gydlynu eu goruchwyliaeth, goruchwylio eu cynnydd a'u cadarnhau. Rhaid i'r goruchwylydd dynodedig fod yn fferyllydd.

9.3 Yn ystod y cyfnod o ddysgu wrth weithio yn ymwneud yn benodol â rhagnodi, rhaid i'r hyfforddai gael eu goruchwylio gan ymarferydd rhagnodi dynodedig[12].

9.4 Gall hyfforddeion fferylliaeth gael eu goruchwylio gan nifer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn ogystal â'u goruchwylydd dynodedig a'r ymarferydd hyfforddiant a phrofiad priodol yn unol â'r safonau rhagnodi annibynnol ar gyfer fferyllwyr cofrestredig.

[11] Gall y goruchwylydd dynodedig a'r ymarferydd rhagnodi dynodedig y cyfeirir atynt yn y safon fod yr un person.

[12] Rhaid i ymarferwyr rhagnodi dynodedig fod yn gymwys i gyflawni'r rôl a rhaid bod ganddynt

rhagnodi dynodedig, mewn lleoliadau amrywiol. Rhaid cael systemau goruchwylio a gytunwyd yn yr holl amgylcheddau arfer i sicrhau y darperir gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar hyd yr amser.

9.5 Rhaid i bob goruchwylydd gael hyfforddiant a phrofiad priodol i fod yn oruchwylwyr. Rhaid i bawb sy'n cefnogi hyfforddeion roi ystyriaeth i ganllawiau'r CFfC. Rhaid i bobl sy'n cynnal asesiadau o'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen neu sy'n rhan o gadarnhau hyfforddeion gael eu hyfforddi'n briodol a meddu ar y cymwysterau a'r cymhwysedd priodol i asesu cymhwysedd hyfforddeion fferylliaeth.

9.6 Rhaid i'r goruchwylydd dynodedig a'r ymarferydd rhagnodi dynodedig, neu eu dirprwyon, gael cyfarfodydd datblygiadol wedi'u cofnodi gyda hyfforddai fferylliaeth yn ystod y flwyddyn hyfforddiant sylfaen.

9.7 Yn ystod y cyfnod dysgu wrth weithio, ni ddylai hyfforddeion ond cyflawni tasgau y maen nhw'n gymwys ar eu cyfer, neu y maen nhw'n dysgu dan oruchwyliaeth i fod yn gymwys ar eu cyfer, fel nad yw diogelwch cleifion yn cael ei effeithio.

9.8 Os oes pryderon y gall hyfforddai fferylliaeth fod yn methu cyflawni'r deilliannau dysgu ar gyfer y flwyddyn hyfforddiant sylfaen, rhaid paratoi cynllun gweithredu.

9.9 Mae cadarnhad yn cadarnhau fod hyfforddai wedi cyflawni'r holl ddeilliannau dysgu yn Rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r penderfyniad i gadarnhau hyfforddai gael ei wneud gan fwy nac un person a rhaid iddo fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Man lleiaf, os nad yr un person ydynt, rhaid i'r goruchwylydd dynodedig a'r ymarferydd rhagnodi dynodedig fod yn rhan o'r penderfyniad i gadarnhau hyfforddai. Rhaid i'r ymarferydd rhagnodi dynodedig ddarparu cadarnhad ffurfiol unwaith y maent yn fodlon ynghylch cymhwysedd hyfforddai wrth ragnodi. Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, sy'n rhan o gydlynu goruchwyliaeth hyfforddeion, goruchwylio eu cynnydd, neu'n eu goruchwylio fod yn rhan o'r cadarnhau. Rhaid diffinio a chytuno trefniadau ar gyfer cadarnhau, gan gynnwys rolau a chymwyseddau'r sawl sy'n cymryd rhan.

Geirfa

Tabl 6: Geirfa

Term	Diffiniad
Achrediad	Y prosesau a ddefnyddir i adolygu gradd MPharm at ddibenion sicrhau ansawdd i wneud yn siwr fod y cwrs addysg neu hyfforddiant yn bodloni safonau, meini prawf a pholisïau hyfforddiant perthnasol y CFfC.
Ymgeisydd	Person sy'n gwneud cais i gofrestru ar radd MPharm neu flwyddyn hyfforddiant sylfaen.
Unioniad	Caniatáu methiant o faint bychan mewn nifer cyfyngedig o asesiadau ar sail perfformiad boddhaol yn gyffredinol.
Goddefiad	Pan roddir 'pas' er na chyrhaeddwyd y safon ar gyfer pas, fel arfer pan mae maint y methiant yn fach.
Goruchwylydd dynodedig	Mae'r goruchwylydd dynodedig yn gyfrifol am oruchwylio hyfforddiant yr hyfforddai ac am gadarnhau cymhwysedd yr hyfforddai ar ddiwedd y flwyddyn hyfforddiant sylfaen. Dylent fod yn ffynhonnell cyngor ac arweiniad, a byddant yn gweithio gyda phartneriaid arfer i gefnogi'r hyfforddai i gyflawni'r deilliannau dysgu yn y safonau hyn.
Ymarferydd rhagnodi dynodedig	Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a chanddynt anodiad neu hawl awtomatig i ragnodi – er enghraifft, ymarferydd meddygol, fferyllydd, ffisiotherapydd neu barafeddyg – fydd yn mentora a goruchwylio'r fferyllydd yn ystod y flwyddyn hyfforddiant sylfaen. Bydd yr ymarferydd rhagnodi dynodedig yn darparu cadarnhad ffurfiol unwaith y maent yn fodlon â chymhwysedd yr hyfforddai wrth ragnodi.
Cyflogydd	Person neu sefydliad sy'n cyflogi'r hyfforddai yn uniongyrchol.
Arholydd	Unigolyn a chanddynt rôl ffurfiol yn y cwrs yn gwerthuso gwybodaeth neu gymhwysedd myfyriwr.
Dysgu trwy brofiad	Yn ystod gradd MPharm, cyfnod o brofiad ymarferol yn gweithio gyda chleifion, gofalwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n digwydd mewn nifer o amgylcheddau gwahanol (go iawn ac efelychol).

Term	Diffiniad
Blwyddyn hyfforddiant Sylfaen	Y cyfnod o 52 wythnos pan mae hyfforddai fferylliaeth yn gwneud gwaith dysgu ymarferol a gweithgareddau hyfforddiant dan oruchwyliaeth.
Asesiad ffurfiannol	Math o asesiad sy'n barhaus a datblygol ac a ddefnyddir i roi adborth a chefnogaeth i'r myfyriwr/hyfforddai ar eu cynnydd tuag at y deilliannau dysgu.
Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol	Unigolyn a gymeradwywyd i weithio mewn arbenigaeth neu ddisgyblaeth gofal iechyd gan y corff rheoleiddiol perthnasol yn y DG.
Sefydliad addysg uwch	Ysgol fferylliaeth sy'n darparu gradd MPharm achrededig ac sydd o'r herwydd yn gyfrifol am gynllunio, darparu a rheoli ansawdd y radd MPharm achrededig. Sefydliad addysg uwch sy'n cyfrannu at y flwyddyn hyfforddiant sylfaen.
Dysgu rhwng y proffesiynau	Yn ystod gradd MPharm, cyfnod o ymgysylltu gyda myfyrwyr o broffesiynau iechyd a gofal eraill sy'n adlewyrchu arfer.
Cyfnod o ddysgu wrth weithio	Y cyfnod o ddysgu wrth weithio sy'n ymwneud yn benodol â rhagnodi. Mae'n cynnwys o leiaf 90 awr o arfer dan oruchwyliaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rhagnodi annibynnol.
Nodweddion gwarchodedig	Y naw nodwedd warchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010: oed; anabledd; ail-bennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd a chred; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol.
Cadarnhad	Cadarnhad ffurfiol fod yr hyfforddai wedi cyflawni deilliannau dysgu y flwyddyn hyfforddiant sylfaen.
Cyrff addysg statudol	NHS Education Scotland (NES), Health Education England (HEE), Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC), and the Northern Ireland Centre for Pharmacy Learning and Development (NICPLD).
Myfyriwr fferylliaeth	Unigolyn sy'n astudio ar radd MPharm.
Goruchwyliaeth	Goruchwylio hyfforddeion, gan ddefnyddio systemau y cytunwyd arnynt, ymhob amgylchedd arfer i sicrhau y darperir gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn ystod y flwyddyn

Term	Diffiniad
	hyfforddiant sylfaen, mae'r goruchwylydd dynodedig a'r ymarferydd rhagnodi dynodedig yn gyfrifol am sicrhau diogelwch wrth i'r hyfforddai symud trwy eu cwrs.
Asesiad crynodol	Math o asesiad a ddefnyddir i fesur a yw'r myfyriwr/hyfforddai wedi cyflawni un neu ragor o'r deilliannau dysgu.
Ymlusgo	Gallu cychwyn y flwyddyn astudio nesaf pan nad yw un neu ragor o'r asesiadau o'r flwyddyn flaenorol wedi cael eu pasio eto.
Hyfforddai fferylliaeth	Unigolyn sy'n gwneud eu blwyddyn hyfforddiant sylfaen.

Cyfeiriadau

Deddfwriaeth a safonau

The Pharmacy Order (Department of Health, 2010)

The Pharmacy (Northern Ireland) Order (Department of Health, Social Services and Public Safety, 1976)

The Code of Ethics and Standards (Pharmaceutical Society of Northern Ireland, 2016)

Standards for Pharmacy Professionals (GPhC, 2017)

Standards for the education and training of pharmacist independent prescribers (GPhC, 2019)

Education procedures for the initial education and training of pharmacists and pharmacy technicians (GPhC, 2013)

Revalidation Framework (GPhC, 2018)

Canllawiau

Demonstrating professionalism online (GPhC, 2020)

Female genital mutilation: mandatory duty for pharmacy professionals to report (GPhC, 2019)

Guidance on experiential learning, placements, laboratory work and other face-to-face interaction on MPharm degrees and OSPAPs ('experiential learning') **(GPhC, 2020)**

Guidance on MPharm admissions **(GPhC, 2020)**

Guidance on tutoring and supervising pharmacy professionals in training (GPhC, 2018)

Guidance on tutoring for pre-registration pharmacist tutors (GPhC, 2018)

Guidance on managing fitness to practise concerns in education and training (GPhC, 2020)

In practice: Guidance for pharmacist prescribers (GPhC, 2019)

In practice: Guidance on consent (GPhC, 2018)

In practice: Guidance on maintaining clear sexual boundaries (GPhC, 2020)

In practice: Guidance on patient confidentiality (GPhC, 2018)

In practice: Guidance on raising concerns (GPhC, 2017)

In practice: Guidance on religion, personal values and beliefs (GPhC, 2017)

Joint statement on conflicts of interest (GPhC, 2017)

Joint statement on the professional duty of candour (GPhC, 2014)

Interprofessional education guidelines (Centre for the Advancement of Interprofessional Education, 2017)

UK Quality Code for Higher Education (Quality Assurance Agency for Higher Education, 2018)

Sefydliadau defnyddiol

General Pharmaceutical Council (CFfC)

British Pharmaceutical Students' Association (BPSA)

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC)

Health Education England (HEE)

NHS Education Scotland (NES)

Office for Students

Office of the Independent Adjudicator (OIA)

Pharmaceutical Society of Northern Ireland (PSNI)

Pharmacy Schools Council

Professional Standards Authority (PSA)

Royal Pharmaceutical Society (RPS)

Quality Assurance Agency (QAA)

Universities UK (UUK)

Atodiad 1: Gofynion ar gyfer addysg gychwynnol a hyfforddiant fferyllwyr

Mae'r ddogfen hon yn darparu safonau ar gyfer addysg gychwynnol a hyfforddiant fferyllwyr.

Ar gyfer myfyrwyr a hyfforddeion yn astudio ym Mhrydain, mae pedwar llwybr at gofrestru yn fferyllydd[13] ac anodiad yn rhagnodydd annibynnol:

Llwybr 1: Gradd Meistr Fferylliaeth pedair blynedd gychwynnol (MPharm) gyda'r flwyddyn hyfforddiant sylfaenol i ddilyn

- MPharm pedair blynedd (y gellir astudio rhan ohoni dramor)
- y flwyddyn hyfforddiant sylfaen
- asesiad cofrestru'r CFfC[14]

Fel arfer, rhaid cwblhau'r llwybr hwn at gofrestru mewn wyth mlynedd[15].

Llwybr 2: Gradd Meistr Fferylliaeth pum mlynedd (MPharm) gan gynnwys gradd sylfaen fferylliaeth gyda'r flwyddyn hyfforddiant sylfaenol i ddilyn

- gradd sylfaen ddwy flynedd ran-amser (yn cynnwys Blwyddyn 1 gradd MPharm a phrofiad gwaith a sgiliau astudio)
- blynyddoedd 2-4 gradd MPharm
- y flwyddyn hyfforddiant sylfaen
- asesiad cofrestru'r CFfC

Fel arfer, rhaid cwblhau'r llwybr hwn at gofrestru mewn naw mlynedd.

[13] Gellir addasu'r cyfnod amser ar gyfer cwblhau llwybr at gofrestru, yn gymesur, ar gyfer cyfnodau o addysg neu hyfforddiant rhan-amser, ac am resymau dilys, cofnodedig eraill. Mae'r broses gofrestru'n cynnwys archwiliadau iechyd a chymeriad da.

[14] O 2020, darperir yr asesiad cofrestru ar-lein hyd nes y dywedir yn wahanol.

[15] *Gweithdrefnau addysg ar gyfer addysg gychwynnol a hyfforddiant fferyllwyr a thechnegwyr fferylliaeth*

Llwybr 3: Gradd Meistr Fferylliaeth pum mlynedd (MPharm) gan gynnwys blwyddyn baratoi gyda'r flwyddyn hyfforddiant sylfaenol i ddilyn

- blwyddyn baratoi (Blwyddyn Sero/Blwyddyn Sylfaen/Blwyddyn Sylfaen Iechyd)
- blynyddoedd 1-4 gradd MPharm, gan gyflawni'r deilliannau dysgu yn rhan 1 y safonau hyn
- y flwyddyn hyfforddiant sylfaen
- asesiad cofrestru'r CFfC

Fel arfer, rhaid cwblhau'r llwybr hwn at gofrestru mewn naw mlynedd.

Llwybr 4: Gradd Meistr Fferylliaeth pum mlynedd (MPharm) gan gynnwys y flwyddyn hyfforddiant sylfaenol

- Gradd MPharm bum mlynedd, gan gynnwys blociau o'r flwyddyn hyfforddiant sylfaen
- asesiad cofrestru'r CFfC

Fel arfer, rhaid cwblhau'r llwybr hwn at gofrestru mewn wyth mlynedd.

Cyndor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

@TheGPhC
TheGPhC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org